

Sicrhau Gwerth am Arian 2019/20

Mae Newydd wedi mabwysiadu Cerdyn Sgorio'r Sector er mwyn asesu perfformiad.

Mae Cerdyn Sgorio'r Sector yn fenter sy'n meincnodi perfformiad cymdeithasau tai ac yn gwirio eu bod yn darparu gwerth am arian. Mae'n ein helpu i gymharu ein perfformiad ag eraill, ac i herio'r pethau hynny sydd angen i ni eu newid.

Mae'r cerdyn sgorio wedi'i osod mewn pum rhan, sef:

- Iechyd Busnes
- Datblygiad (Capasiti a Chyflenwad)
- Canlyniadau a Gyflwynwyd
- Rheoli Asedau Effeithiol
- Effeithlonrwydd Gweithredu

Iechyd Busnes



Mae cadernid ac effeithlonrwydd ariannol yn dangos iechyd sefydliadol. Mae'r gorswm gweithredu yn dangos proffidioldeb, ac mae sicrwydd llog yn ddangosydd allweddol o hylifedd a gallu buddsoddi.

	Newydd Targed	Newydd 2019/20	Canolrif Cymru* 2019/20	Canolrif DU* 2019/20
Gorswm Gweithredu Cyfan gwbl	30%	27.7%	20.1%	21.5%
Gorswm Gweithredu Gosod tai cymdeithasol	30%	30.1%	—	23.6%
Sicrwydd Ilog	130%	153%	183%	196.1%

Mae gennym ni lwfans gweithredu iach wrth ddarparu gwasanaethau craidd am rent byw fforddiadwy.

*Y ffynhonnell yw Sector Scorecard Analysis Report 2020 a gynhyrchwyd gan Housemark.

Mae'n cynnwys canlyniadau 275 o gymdeithasau tai, gydag 18 o'r rheiny yn gymdeithasau Cymreig.

Datblygiad (Capasiti a Chyflenwad)



Mae hyn yn dangos sut rydyn ni wedi defnyddio ein mantolen i godi a chaffael tai newydd.

Mae'r geriad yn mesur y radd o ddibyniaeth ar gyllid dyledion, a gall fod yn ddangosydd archwaeth ar gyfer twf.

	Newydd Targed	Newydd 2019/20	Canolrif Cymru* 2019/20	Canolrif DU* 2019/20
Unedau a ddatblygwyd	100	98	—	—
Unedau a ddatblygwyd fel canran o'r unedau a berchenogir	3% +	3.3%	1.3%	1.3%
Geriad	41.1%	33.8%	40.1%	33.8%

Roedd gennym 200 o gartrefi newydd ar y safle ar 1 Ebrill 2020.

*Y ffynhonnell yw Sector Scorecard Analysis Report 2020 a gynhyrchwyd gan Housemark.

Mae'n cynnwys canlyniadau 275 o gymdeithasau tai, gydag 18 o'r rheiny yn gymdeithasau Cymreig.



Canlyniadau a Gyflwynwyd



Mae boddhad tenantiaid yn fesur allweddol ein bod yn gwneud y pethau cywir a'n bod yn eu gwneud yn iawn.

Mae hefyd yn fesur o ba mor llwyddiannus ydyn ni'n cyflwyno ein gweledigaeth o dai fforddiadwy a chymunedau cynaliadwy gyda gwasanaethau gwych, i denantiaid a chwsmeriaid.

	Newydd Targed	Newydd 2019/20	Canolrif Cymru* 2019/20	Canolrif DU* 2019/20
Boddhad Cwsmeriaid	90%	76%	81%	86.9%
% wedi'i fuddsoddi mewn cyflenwad newydd o dai am bob £ a gynhyrchwyd o ganlyniad i weithrediadau	heb ei osod	10%	8.4%	6.1%
% wedi'i fuddsoddi mewn cymunedau am bob £ a gynhyrchwyd o ganlyniad i weithrediadau	heb ei osod	£269.88	£59.33	£67.66

Cwmpodd boddhad tenantiaid yn ystod ailstrwythuro mawr yn ein gwasanaeth. Ddiwedd Rhagfyr 2020, roedd yn 81%.

*Y ffynhonnell yw Sector Scorecard Analysis Report 2020 a gynhyrchwyd gan Housemark.

Mae'n cynnwys canlyniadau 275 o gymdeithasau tai, gydag 18 o'r rheiny yn gymdeithasau Cymreig.

Rheoli Asedau Effeithiol



Mae'r adenillion ar gyfalaf a wariwyd yn fesur cyffredin i asesu buddsoddiad effeithlon mewn adnoddau cyfalaf.

Mae'r gyfradd defnydd yn dangos pa mor effeithlon ydyn ni am gadw tenantiaid yn ein heiddo.

Gall cynllunio effeithlon sy'n seiliedig ar arolygon cyflwr stoc, leihau'r gwariant ar drwsio ymatebol a ffafrio trwsio a gynlluniwyd, sy'n ffordd fwy cost-effeithlon o gynnal a chadw eiddo.



	Newydd Targed	Newydd 2019/20	Canolrif Cymru* 2019/20	Canolrif DU* 2019/20
Adenillion ar gyfalaf a wariwyd	heb ei osod	2.3%	2.3%	2.8%
Deiliadaeth	98.9%+	98.1%	99.2%	99.3%
Cyfradd trwsio ymatebol / trwsio a gynlluniwyd	43%	79%	—	64%

Arweiniodd ailstrwythuro mawr yn ein gwasanaeth at oedi wrth lenwi unedau gwag.

*Y ffynhonnell yw Sector Scorecard Analysis Report 2020 a gynhyrchwyd gan Housemark.

Mae'n cynnwys canlyniadau 275 o gymdeithasau tai, gydag 18 o'r rheiny yn gymdeithasau Cymreig.

Effeithlonrwydd Gweithredu

Mae hyn yn mesur i ba raddau rydyn ni'n cynnig gwerth am arian drwy ein dewisiadau strategol.



	Newydd Targed	Newydd 2019/20	Canolrif Cymru* 2019/20	Canolrif DU* 2019/20
Cost pennawd tai cymdeithasol am bob uned	£3,438	£3,388	£4,408	£4,023
Rhent a gasglwyd	100%	99.4%	99.9%	99.8%

Rydym yn buddsoddi mwy mewn cynnal a chadw pan fedrwn ni.

*Y ffynhonnell yw Sector Scorecard Analysis Report 2020 a gynhyrchwyd gan Housemark.

Mae'n cynnwys canlyniadau 275 o gymdeithasau tai, gydag 18 o'r rheiny yn gymdeithasau Cymreig.



E-bost

enquiries@newydd.co.uk

Ffôn

0303 040 1998

Gwefan

newydd.co.uk

Post

Newydd Housing Association

Ty Cadarn, 5 Village Way

Tongwynlais CF15 7NE

[f](#) [@](#) [t](#) [in](#) @NewyddHousing